

Talylychau

**Pam Cerdded?**

Mae'n werth ymweld â'r ardal hyd yn oed os mai i weld adfeilion yr abaty yn unig. Mae'r daith yn mynd â chi'n uchel i'r llechwedd gan gynnig golygfeydd panoramig ar draws y rhan hyfryd hon o Sir Gaerfyrddin sydd heb ei difetha.

**Pa mor Hir?**

oddeutu 4km (2.5 milltir)

**Pa mor Anodd?**

Mae esgyniadau a disgyniadau eithaf serth ar y llwybr ac fe allai rhai cerddwyr ei chael hi'n anodd ymgymryd â'r her.

**Parcio**

- Hyn a hyn o leoedd parcio sydd ar gael y tu allan i furiau'r Abaty ond mae maes parcio Cyfoeth Naturiol Cymru ar agor fel rheol yn y coetir gyferbyn.

**Cyfleusterau**

- Mae toiled cyhoeddus ar gael ond does dim caffis na siopau yno; fodd bynnag, mae adfeilion yr Abaty yn lleoliad perffaith i gael picnic.

**Man Cychwyn****1 Talylychau a'r Abaty.**

Disodlwyd rheolaeth Rufeinig yn y 5ed a'r 6ed ganrif gan 'deyrnasoedd' bach Cymreig a daeth yr ardal yn fwyfwy amaethyddol. Sefydlwyd yr Abaty yn y 1180au gan yr Arglwydd Rhys ap Gruffydd o Ddeheubarth a roddodd swm hael o dir hefyd. Caeodd Harri VIII yr Abaty, a oedd wedi mynd yn dlawd ac wedi'i esgeuluso yn yr Oesoedd Canol diweddarach, ac atafaelodd yr ystadau. O dan nawdd Williamsiaid Rhydodyn, adeiladwyd eglwys newydd y plwyf ym 1773, gan ddefnyddio cerrig yr Abaty.

2 Cyfoeth Naturiol Cymru - Maes parcio a theithiau cerdded.

Yn ychwanegol at y daith gerdded y sonnir amdani yma, mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bolisi mynediad agored yn eu coetiroedd sy'n caniatáu i bobl fynd ar sawl taith gerdded bosibl arall yn yr ardal.

Mannau o ddiddordeb**3 Gwaith Plwm Pen-y-garreg**

Bu adeiladau prosesu, prif sialft a 'lefelau' eraill hen Waith Plwm Pen-y-garreg yn weithredol tan 1892. O dan y ffordd i'r gogledd o'r Abaty roedd sialft aer, ac yn y coetir, roedd mynedfa yn cael ei gyrru i gyrraedd y wythien blwm.

4 Llynnoedd Talylychau a Thomen y Castell

Mae dau lyn Talylychau yn ddelfrydol ar gyfer bywyd gwyllt. Cawsant eu ffurfio ar ddiwedd Oes yr Iâ gan falurion a adawyd gan y llenni iâ wrth iddynt gilio. Mae'r Llyn Isaf yn Warchodfa Natur sydd dan reolaeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru, ac mae'n gartref i hwyaid copog, mulfrain a gwyachod mawr copog. Castell mwnt a beili yw'r

twmpath sydd wedi'i orchuddio â choed rhwng y llynnoedd, amddiffynfa frodorol Gymreig o bosibl wedi'i hadeiladu ar byst pren. Gwaith teulu Rhydodyn yw'r 'gamlas' rhwng y ddau lyn.

5 Mynydd Cynros - Tir Comin a Thir Caeëdig

Yn yr ardal hon yr oedd Comin Talylychau, oedd yn darparu porfa gyffredin i rydd-ddeiliaid y faenor. Bu'n rhaid cau'r comin yn unol â Deddf Seneddol 1817. Mae llinellau syth a phatrwm rheolaidd y ffiniau yn cyfleu patrwm y tir caeëdig yn glir iawn. Cafodd Fferm Cwm-yr-Efail mwy na thebyg ei hadeiladu yn ystod yr un cyfnod.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

darganfodsirgar.com • discovercarmarthenshire.com